1872 PRIFYSGOL ABERYSTWYTH UNIVERSITY

# YR AROLWG BUSNES FFERM YNG NGHYMRU

## Llyfryn Incwm Fferm Cymru
## Canlyniadau 2018/19



**CYNNWYS** **Tudalen**


| | |
|---|---|
| **Rhagair** | 1 |
| **Trosolwg** | 2 |
| **Cyflwyniad** | 4 |
| **Diffiniad o Derminoleg a Nodiadau Eglurhaol** | 5 |
| **Data Fferm Gyfan** | |
| Ffermydd mynydd gwartheg a defaid | 7 |
| Ffermydd mynydd defaid | 9 |
| Ffermydd ucheldir gwartheg a defaid | 11 |
| Ffermydd llawr gwlad gwartheg a defaid | 13 |
| Ffermydd godro – ardaloedd llai ffafriol | 15 |
| Ffermydd godro – llawr gwlad | 17 |
| **Data Elw Bras** | |
| Defaid mynydd | 19 |
| Defaid ucheldir | 19 |
| Defaid llawr gwlad | 20 |
| Buchod sugno llawr gwlad | 20 |
| Buchod sugno ucheldir | 21 |
| Buchod sugno mynydd | 21 |
| Buchod godro ardaloedd llai ffafriol | 22 |
| Buchod godro llawr gwlad | 22 |
| **Data Costau Cynhyrchu** | |
| Costau cynhyrchu cig oen | 23 |
| Costau cynhyrchu llaeth | 23 |
| Costau cynhyrchu cig eidion: lloi sugno | 24 |
| Costau cynhyrchu cig eidion: pesgi | 24 |
| **Anghenion Elw Fferm** | 25 |

Prifysgol
Aberystwyth
University

# Llyfryn Incwm Fferm Cymru
# Canlyniadau 2018/19

## Arolwg Busnes Fferm

Athrofa y Gwyddorau Biolegol, Amgylcheddol a Gwledig
Prifysgol Aberystwyth
Gogerddan
Aberystwyth
Ceredigion SY23 3EE

**Cyfarwyddwr**

Tony O’Regan

**Staff yr Uned**

Eileen Edwards
Paul Heyhoe
Brenda Jones
Huw Morris
Dafydd Owen
Eirig Parry
Nick Reeves
Tegid Roberts
Huw Williams
Ian Williams

Ffôn: 01970 622253
E-bost: farmsurv@aber.ac.uk
www.aber.ac.uk/cy/ibers/research-and-enterprise/fbs

## Rhagair

Mae Prifysgol Aberystwyth wedi bod yn ymchwilio incwm ffermydd Cymru ers dros 80 o flynyddoedd. Mae'r Arolwg, a chaiff ei chydnabod fel yr un mwyaf awdurdodol ar sefyllfa ariannol a pherfformiad incwm ffermydd, yn darparu gwybodaeth i wneuthurwyr polisi ar gyflwr economaidd y diwydiant a data cymharol gwerthfawr ar gyfer asesu perfformiad ffermydd unigol.

Mae'r llyfryn hwn yn seiliedig ar yr Arolwg Busnes Fferm (ABFf) llawn sy'n cynnwys gwybodaeth a gasglwyd ar dros 550 o ffermydd Cymru a ddewiswyd ar hap. Bwriad y llyfryn yw darparu teclyn meincnodi sy'n hawdd ei ddefnyddio i ffermwyr ac mae'n cynnwys y wybodaeth ariannol a ffisegol ddiweddaraf am y prif fathau o ffermydd yng Nghymru. Mae'r canlyniadau a ddangosir yn cynnwys addasiadau i rai agweddau o fethodoleg yr ABFf a'r ffordd o gyflwyno canlyniadau. Er enghraifft, mae mewnbynnau tybiannol megis gwerth rhentu ar gyfer ffermydd ym meddiant y perchennog a llafur di-dâl wedi cael eu cymryd allan tra bo taliadau cyllid wedi cael eu cynnwys, er mwyn i'r ffigurau hyn gynrychioli costau gwirioneddol. Mae'r llyfryn hwn yn dangos llafur di-dâl i ddibenion cyfeirio yn unig ac hefyd mae ond yn cynnwys rhai mathau o ffermydd. O bryd i'w gilydd, mae'r sail ar gyfer dosbarthu ffermydd yn newid (er enghraifft, yn 2016/17 fe newidiodd o Safon Elw Bras i Allbynnau Safonol) ac felly ar gyfer cynnal unrhyw ddadansoddiad cynhwysfawr ac ar gyfer dadansoddi tueddiadau blwyddyn ar flwyddyn ar incwm, cyfeiriwch at y canlyniadau llawn a gyhoeddwyd yn adroddiad blynyddol 'Arolwg Busnes Ffermydd yng Nghymru: Canlyniadau Ystadegol ' (ar gael ar-lein).

Mae Prifysgol Aberystwyth wedi bod yn gysylltiedig ag astudiaethau'r tir ers 1878, a'r ABFf yw ei chytundeb ymchwil hynaf. Priodol felly yw cydnabod yn ddiolchgar y llu o ffermwyr ledled Cymru sydd wedi darparu gwybodaeth fanwl; Llywodraeth Cymru sy'n ariannu'r Arolwg presennol a staff yr Arolwg, ddoe a heddiw.

**Tony O'Regan**
**Cyfarwyddwr yr Arolwg Busnes Fferm**

## Trosolwg

Mae'r canlyniadau yn y llyfryn hwn yn ymdrin â'r blynyddoedd cyfrifon a ddaeth i ben rhwng 31 Rhagfyr 2018 a 31 Mawrth 2019 ac felly'n adlewyrchu amodau ffermio rhwng Ionawr 2018 a Mawrth 2019. Bwriad y trosolwg hwn yw rhoi cyd-destun a mewnwelediad i'r cyfnod y mae'r canlyniadau hyn yn eu cynrychioli.

Roedd gaeaf 17/18 yn hir ac yn wlyb gyda phwysau ar stociau bwyd anifeiliaid a oedd eisoes yn isel ar ôl haf blaenorol gwael. Dilynodd gwanwyn oer a gwlyb gan arwain at borthiant a gwellt prin a drud, troi allan hwyr a chyfnod anodd i sefydlu cnydau gwanwyn. Fe wnaeth gwyntoedd oer ac eira trwm y 'dihiryn o'r dwyrain' ar ddiwedd gaeaf 17/18 wyna yn anodd. Ymddangosodd yr haul ddiwedd y gwanwyn gan arwain at amodau tyfu a chynaeafu cynnar da, gyda silwair o ansawdd da a mwy o gnydau gwair. Yna daeth amodau tebyg i sychder gyda thwf glaswellt yn brin ac o ansawdd gwael. Gorfododd hyn i lawer o ffermwyr ychwanegu at eu ogor ar gyfer y gaeaf nei brynu porthiant ychwanegol drud. Fe wnaeth hydref gwlyb a gaeaf mwyn ddilyn gan leddfu pwysau ar borthiant, estynnwyd y tymor pori a chyflenwyd porfa ar gyfer cnydau ysgafn o silwair o ansawdd isel.

Gyda chyflenwadau tynnach ar ôl amodau ŵyna gwael, fe werthodd ŵyn cynnar yn dda er i brisiau ostwng dros yr haf ac eto ar ddechrau 2019. Arweiniodd twf gwael porthiant yr haf at fwy o ddefnydd o ddwysfwyd i'r ŵyn. Gwerthodd ŵyn ysgafnach yn wael fel y gwnaeth hen ddefaid ysgafn er bod prisiau hen ddefaid trymach wedi parhau'n gryf trwy gydol y cyfnod. Gwerthodd cig eidion yn dda am ran gyntaf y flwyddyn gyda gwartheg tew safonol yn dal prisiau da. Gostyngodd prisiau gwartheg hanner ffordd trwy'r flwyddyn, wrth i'r niferoedd gwerthu gynyddu oherwydd y porthiant cyfyngedig, ac aethon lawr ar eu pen am weddill y flwyddyn.

Arhosodd prisiau llaeth yn weddol gyson ac yn debyg i'r flwyddyn flaenorol, ond eto i gyd yn amrywiol rhwng cytundebau. Cafodd elw llaeth ei daro oherwydd amodau tyfu gwael gan arwain at fwy o bryniant dwysfwyd a chnydau porthiant i gynnal cynnyrch. Cynyddodd gwerthiant swynogydd i leddfu prinder porthiant gan arwain at brisiau is ar gyfer hen wartheg ar ddiwedd y flwyddyn. Er bod prisiau llaeth statig wedi dod â rhywfaint o sefydlogrwydd, roedd cynhyrchwyr yn dal i adael, yn rhannol oherwydd bod y diciau yn achosi straen a chost.

Ar ôl amodau hau anodd a chostau agrogemegol uwch, cafodd ffermydd cnydau amodau cynaeafu ac ail-hau perffaith bron. Fe wnaeth y gwanwyn a haf sych gyfyngu cynhyrchiant er bod y cynnydd yn y galw am borthiant gwartheg a grawnfwyd cnwd cyfan wedi cydadfer yn rhannol am gynnyrch gwael. Roedd ansawdd gwellt yn dda, roedd galw mawr amdano ac roedd yn ennill prisiau sylweddol uwch i gymharu â'r flwyddyn flaenorol. Roedd galw mawr am indrawn a chnydau âr yn y cae ar gyfer porthiant a, gyda safleoedd treulio anaerobig yn rhoi sail i'r farchnad, roedd y prisiau'n uchel. Roedd prisiau tatws yn gryf, ond roedd angen dyfrhau cost uchel arnyn nhw i gadw'r elw.

Roedd agweddau eraill i'w nodi yn cynnwys: cynnydd cyffredinol mewn costau cynhyrchu; mwy o bwysau ar gyllid fferm a benthyciadau; ansicrwydd ynghylch Brecsit yn parhau ynglŷn â masnach, llafur a thaliadau cymorth yn y dyfodol; galw cynyddol i anfon cynnyrch fferm i gynhyrchu ynni; mwy o bobl yn manteisio ar y Grant Busnes Fferm; buddsoddiad parhaus mewn prosiectau arallgyfeirio; mwy o fentrau dofednod, ond cwymp mewn prisiau wyau a moch; y llunio ar gyfer Gwneud Treth yn Ddigidol a'i materion cysylltiedig.

Mae'r canlyniadau yn amlygu gwahaniaethau mawr mewn perfformiad. Er enghraifft, roedd elw £ yr hectar effeithiol traean uchaf ffermydd gwartheg a defaid bron tair gwaith y cyfartaledd. Yn yr un modd, gwnaeth traean uchaf cynhyrchwyr llaeth elw net o 10 c/l yn fwy na'r traean isaf. Roedd yna amrywiaeth tebyg ymysg cynhyrchwyr cig gyda chig oen yn amrywio rhwng elw o 27 c/kg a cholled o 91 c/kg, a cynhyrchwyr lloi sugno rhwng golled o 14 c/kg a cholled o 166 c/kg. Fodd bynnag, nid yw'r holl ganlyniadau hyn yn ystyried cost llafur y ffermwr, a gall ei absenoldeb, o'i gamddefnyddio, gyflwyno darlun ffug o economeg cynhyrchu. Y sector llaeth sydd orau am ddangos hyn oherwydd gall costau llafur/pensiwn yn unig ychwanegu rhwng 8 a 9 c/l, gan wthio costau cynhyrchu y traean uchaf i dros 29 c/l a'r traean isaf yn nes at 36 c/l.

Mae angen rhoi sylw arbennig hefyd i gyfraniad y Taliad Sylfaenol (BPS), cymorthdaliadau eraill ac incwm arallgyfeirio i'r llinell waelod. Er enghraifft, cyfrannodd y tair elfen yma tua 45 % o'r allbynnau a 242 % o'r elw, ar gyfartaledd, ar gyfer ffermydd defaid mynydd ac felly mae'n anodd gweld faint o ffermydd yng Nghymru sy'n gallu bod yn broffidiol heb ddibynnu ar incwm tu hwnt i ffermio a thaliadau cymorth yn dilyn Brecsit.

## Cyflwyniad

Mae proffidioldeb yn ganolog i unrhyw fusnes fferm, er y bydd gan ffermwyr lawer o amcanion busnes a phersonol eraill. Gyda Brecsit a'r heriau economaidd parhaol eraill, dylai pob ffermwr wybod am eu costau cynhyrchu a sut maent yn cymharu â chostau cynhyrchwyr eraill. Mae'r amrywiaeth o ran perfformiad ac elw a welir yn y llyfryn hwn yn dangos ehangder y gwelliannau posib a thrwy gymharu neu 'feincnodi' perfformiad fferm, gellir adnabod ac ymateb i gryfderau a gwendidau'r busnes.

Mae'r canlyniadau yn y llyfryn wedi eu gosod allan fel a ganlyn gan ddangos data ar gyfer y busnesau yn gyfartalog â'r dreian uchaf o ran perfformiad:

**1. Data Fferm Gyfan (Tudalennau 7 – 18)**
Cyflwynir gyfrifon elw a cholled a mantolen gryno ar gyfer chwe gwahanol fath o fferm. Dengys y canlyniadau gyfartaledd elw neu golled y ffermydd hyn ynghyd â'r cyfartaledd fesul hectar. Dengys hefyd faint a graddfa stocio'r ffermydd ynghyd â dangosyddion perfformiad allweddol perthnasol.

**2. Data Elw Bras (Tudalennau 19 – 22)**
Yn y llyfryn ceir data ar gyfer wyth gwahanol fenter fferm. Mae elw bras yn cymharu incwm gyda chostau uniongyrchol cynhyrchu. Mae angen cryn ofal wrth ddefnyddio elw bras gan nad yw costau anuniongyrchol (sefydlog) y cynhyrchu yn cael eu hystyried.

**3. Data Costau Cynhyrchu (Tudalennau 23 – 24)**
Yn y llyfryn ceir costau cynhyrchu ar gyfer pedwar allbwn amaethyddol. Ystyrir cyfanswm cost cynhyrchu fesul uned. Trwy ystyried y costau uniongyrchol ac anuniongyrchol (a ddyfernir fesul uned da byw) mae cynhyrchwr mewn gwell lle i ystyried pa mor gystadleuol ac effeithiol yw'r fenter.

| | |
|---|---|
| *Hectarau effeithiol (Eff. Ha.)* | Golyga arwynebedd y fferm gyfan ar ôl tynnu arwynebedd ffyrdd, coetiroedd, tir diffaith ac adeiladau. Ystyrir porfa fras yn ôl ei arwynebedd cyfwerth o dir pori da. |

***Mathau o Ffermydd***

| | |
|---|---|
| *Mynydd* | Yn yr Ardal Dan Anfantais Fawr yn bennaf. |
| *Ucheldir* | Yn yr Ardal Dan Anfantais yn bennaf. |
| *Llawr Gwlad* | Y tu allan i'r Ardal Llai Ffafriol yn bennaf. |

***Data Fferm Gyfan***

| | |
|---|---|
| *Penderfynu data fferm gyfan* | Dynodir y cynhyrchwyr uchaf yn ôl elw ar ôl rhent a chyllid fesul hectar effeithiol. |
| *Cymorthdaliadau anuniongyrchol* | Cymorthdaliadau na gafwyd eu dadgyplu e.e. cynllun Organig a Glastir. |
| *Costau cnydau eraill* | Yn cynnwys holl gostau porthiant a chnydau eraill e.e. hadau, chwistrellion, lapio a chortyn ond nid gwrtaith a chontractio. |
| *Contractio penodedig* | Contractio y gellir ei gysylltu â mentrau penodedig e.e. combeinio, cneifio a gwasgaru slyri. |
| *Costau fferm cyffredinol* | Yn cynnwys trydan, ffôn, yswiriant, trwyddedau, ffioedd proffesiynol a thanysgrifiadau. |
| *Incwm amrywiol* | Yn cynnwys contractio, rhent bythynnod, taliadau fforddfraint ac unrhyw incwm amrywiol arall. Yn cynnwys elw o unrhyw fentrau arall sydd ddim yn arddangos. |
| *Cyfran o'r fferm a berchnogir* | Gwerth Net wedi ei fynegi fel canran o'r asedau cyfan. |
| *Cyfradd Stocio (glu/adj.forage ha)* | Unedau pori da byw fesul hectar o dir porthiant wedi'i gymhwyso. |
| *Unedau Da Byw (LU) ac Unedau Pori Da Byw (GLU)* | Cyfnewidir niferoedd da byw yn unedau da byw ar sail amcangyfrif o anghenion egni, er mwyn cyfrifo cyfanswm stocio'r da byw sy'n pori ar y fferm. |
| *Buchod godro – allbwn arall* | Allbwn net o werthu / brynu gwartheg a lloi. Hefyd yn cynnwys newid mewn gwerth. |
| *Incwm o Gynhyrchu Egni* | Yn cynnwys incwm o brosiectau cynhyrchu egni o eiddo'r ffermwr ac eraill, gan gynnwys gwynt, haul, biomas, dŵr, AD ac ati. |

| | |
|---|---|
| *Llafur taledig* | Cyfanswm y llafur a dalwyd yn cynnwys llafur achlysurol, rhan amser a llawn amser. |
| *Llafur di-dâl (heb gynnwys ffermwr a'i briod)* | Llafur di-dâl neu lafur a dderbynnir am daliad sydd yn llai na'r hyn a delir fel arfer am y gwasanaeth. Ni chaiff llafur di-dâl ei gynnwys yn yr elw ar ôl rhent a chyllid. |
| *Costau tir* | Yn cynnwys costau'n berthnasol i atgyweirio adeiladau ac adnoddau tir e.e. gwrychoedd, ffensio, walio, ffosydd a chlwydi. Hefyd yn cynnwys costau dŵr. |
| *Cyllid* | Yn cynnwys costau banc, taliadau llog ac unrhyw log prydlesu / hur-bryniant. Dim yn cynnwys ad-daliadau cyfalaf. |
| ***Data Elw Bras*** | Y pen ar sail y fuches / ddiadell. Dangosir i'r mentrau penodol drwy dynnu'r costau uniongyrchol (amrywiol) o'r allbwn perthnasol. |
| *Costau da byw eraill* | Prynu deunyddiau megis gwellt, comisiwn gwerthu a chostau penodol eraill y mentrau da byw. |
| *Porthiant a chostau porthiant* | Yn cynnwys costau eraill i borthiant, gwrtaith, contractio porthiant a chostau tir pori tymhorol. |
| ***Data Costau Cynhyrchu*** | Cyfrifir drwy rannu'r costau amrywiol a sefydlog gyda'r cilogram o gig (mewn pwysau byw) neu litr o laeth a gynhyrchir. Penodi'r y costau sefydlog ar unedau pori da byw ar ôl i'r cyfran o unrhyw dir âr a / neu incwm amrywiol gael ei ddiddynnu. Yn drefnedig drwy elw net. |
| *Adnewyddu buches/diadell* | Newid yng ngwerth da byw magu, wedi ystyried gwerthiant anifeiliaid a phryniant anifeiliaid magu. |
| *Pŵer a pheiriannau* | Yn cynnwys atgyweirio peirianwaith, tanwydd, contractio arall a dibrisio peiriannau. |
| *Adeiladau* | Costau tir a dibrisiad adeiladau. |
| *Elw net* | Allbwn ar ôl cyfanswm costau mewnbwn i fentrau. |
| ***Meintiau sampl*** | Lle mae maint sampl yn pump neu lai o ffermydd, ni ddangosir data. |

## DATA FFERM GYFAN

Nifer o ffermydd: 141

| | Pob fferm | | Traean uchaf |
|---|---|---|---|
| **ALLBYNNAU** | **£/fferm** | **£/eff.ha.** | **£/eff.ha.** |
| Gwartheg cig eidion | 35,628 | 272 | 285 |
| Defaid | 37,724 | 288 | 319 |
| Cnydau a phorthiant | 2,293 | 17 | 32 |
| Taliad Sylfaenol | 27,769 | 212 | 250 |
| Cymorthdaliadau anuniongyrchol | 7,213 | 55 | 90 |
| Incwm o gynhyrchu egni | 4,748 | 36 | 72 |
| Incwm amrywiol | 5,948 | 45 | 70 |
| **CYFANSWM ALLBYNNAU** | **121,323** | **925** | **1,118** |
| | | | |
| **MEWNBYNNAU** | | | |
| Bwydydd | 19,377 | 148 | 117 |
| Costau tir pori tymhorol | 4,327 | 33 | 25 |
| Milfeddygol a meddyginiaethau | 4,977 | 38 | 39 |
| Costau da byw eraill | 8,491 | 65 | 56 |
| Gwrteithiau | 6,609 | 50 | 53 |
| Costau cnydau eraill | 1,854 | 14 | 15 |
| Contractio penodedig | 3,669 | 28 | 29 |
| **CYF. COSTAU NEWIDIOL** | **49,304** | **376** | **334** |
| | | | |
| Llafur y telir amdano | 3,632 | 28 | 16 |
| Contractio arall a llogi peiriannau | 1,006 | 8 | 9 |
| Tanwydd a thrwsio | 11,099 | 85 | 85 |
| Dibrisiant peiriannau | 14,015 | 107 | 121 |
| Costau ffermio cyffredinol | 10,587 | 81 | 81 |
| Costau tir | 4,180 | 32 | 31 |
| Dibrisiant adeiladau | 3,367 | 26 | 27 |
| **CYF. COSTAU SEFYDLOG** | **47,886** | **367** | **370** |
| | | | |
| **CYFANSWM MEWNBYNNAU** | **97,190** | **743** | **704** |
| | | | |
| **ELW CYN RHENT A CHYLLID** | **24,133** | **182** | **414** |
| Rhent | 3,146 | 24 | 23 |
| Cyllid | 4,559 | 35 | 25 |
| **ELW AR ÔL RHENT A CHYLLID** | **16,428** | **123** | **366** |
| Llafur di-dâl | 7,192 | 55 | 72 |

## FFERMYDD MYNYDD GWARTHEG A DEFAID 2018/19

| **MANTOLEN** | **Wedi'i pherchnogi £/fferm** | **Tenant £/fferm** | **Cymysg £/fferm** |
|---|---|---|---|
| Nifer o ffermydd | 67 | 7 | 67 |
| CYFANSWM ASEDAU | 1,614,944 | 250,780 | 1,324,250 |
| CYFANSWM DYLEDION | 107,473 | 74,961 | 151,115 |
| | | 0 | |
| **GWERTH NET** | **1,507,471** | **175,819** | **1,173,135** |
| Cyfran o'r fferm a berchnogir (%) | 93 | 70 | 89 |

| **DATA FFISEGOL** | **Pob fferm** | **Traean uchaf** |
|---|---|---|
| **ARWYNEBEDD TIR** | **Hectarau** | **Hectarau** |
| Glaswelltir a chnydau phorthiant | 113.78 | 98.86 |
| Ydau a chnydau eraill | 0.83 | 1.07 |
| Tir pori garw, braenar, coetir a.y.b. | 54.75 | 91.88 |
| **CYF. ARWYNEBEDD (gwirioneddol)** | **169.36** | **191.81** |
| **CYF. ARWYNEBEDD (effeithiol)** | **131.20** | **124.97** |

| **DA BYW** | **Pob fferm Nifer** | **Traean uchaf Nifer** |
|---|---|---|
| Buchod sugno | 39 | 37 |
| Gwartheg eraill | 77 | 75 |
| Defaid magu | 609 | 578 |
| Defaid eraill | 408 | 403 |

| **DANGOSYDDION PERFFORMIAD** | **Pob fferm** | **Traean uchaf** |
|---|---|---|
| Ŵyn a fegir (nifer y ddafad ) | 1.16 | 1.25 |
| Gwerthiant ŵyn wedi'u pesgi (nifer y ddafad) | 0.84 | 0.93 |
| Gwerthiant ŵyn wedi'u pesgi (£ y oen) | 71.50 | 71.14 |
| Lloi a fegir (nifer y fuwch) | 0.85 | 0.88 |
| Gwerthiant gwartheg wedi'u pesgi ( £ y pen) | 1,174 | 1,216 |
| Gwerthiant gwartheg stôr (£ y pen) | 835 | 842 |
| Cyfradd stocio (glu/adj. forage ha.) | 0.94 | 0.98 |

## FFERMYDD MYNYDD DEFAID 2018/19

## DATA FFERM GYFAN

Nifer o ffermydd: 91

| | Pob fferm | | Traean uchaf |
|---|---|---|---|
| **ALLBYNNAU** | **£/fferm** | **£/eff.ha.** | **£/eff.ha.** |
| Gwartheg cig eidion | 9,132 | 68 | 80 |
| Defaid | 52,014 | 386 | 425 |
| Cnydau a phorthiant | 1,380 | 10 | 11 |
| Taliad Sylfaenol | 32,785 | 243 | 299 |
| Cymorthdaliadau anuniongyrchol | 9,935 | 74 | 123 |
| Incwm o gynhyrchu egni | 941 | 7 | 8 |
| Incwm amrywiol | 7,307 | 54 | 80 |
| **CYFANSWM ALLBYNNAU** | **113,494** | **842** | **1,026** |
| | | | |
| **MEWNBYNNAU** | | | |
| Bwydydd | 16,721 | 124 | 126 |
| Costau tir pori tymhorol | 6,173 | 46 | 44 |
| Milfeddygol a meddyginiaethau | 4,895 | 36 | 37 |
| Costau da byw eraill | 6,031 | 45 | 45 |
| Gwrteithiau | 5,053 | 37 | 36 |
| Costau cnydau eraill | 1,454 | 11 | 11 |
| Contractio penodedig | 3,130 | 23 | 17 |
| **CYF. COSTAU NEWIDIOL** | **43,457** | **322** | **316** |
| | | | |
| Llafur y telir amdano | 3,968 | 29 | 20 |
| Contractio arall a llogi peiriannau | 749 | 6 | 8 |
| Tanwydd a thrwsio | 10,567 | 78 | 86 |
| Dibrisiant peiriannau | 10,807 | 80 | 91 |
| Costau ffermio cyffredinol | 10,054 | 75 | 74 |
| Costau tir | 3,803 | 28 | 27 |
| Dibrisiant adeiladau | 2,628 | 19 | 17 |
| **CYF. COSTAU SEFYDLOG** | **42,576** | **315** | **323** |
| | | | |
| **CYFANSWM MEWNBYNNAU** | **86,033** | **637** | **639** |
| | | | |
| **ELW CYN RHENT A CHYLLID** | **27,461** | **205** | **387** |
| Rhent | 2,723 | 20 | 16 |
| Cyllid | 3,675 | 27 | 21 |
| **ELW AR ÔL RHENT A CHYLLID** | **21,063** | **158** | **350** |
| Llafur di-dâl | 4,123 | 31 | 54 |

## FFERMYDD MYNYDD DEFAID 2018/19

| MANTOLEN | Wedi'i pherchnogi £/fferm | Tenant £/fferm | Cymysg £/fferm |
|---|---|---|---|
| Nifer o ffermydd | 49 | 11 | 31 |
| CYFANSWM ASEDAU | 1,289,546 | 174,067 | 1,257,776 |
| CYFANSWM DYLEDION | 62,440 | 42,519 | 149,814 |
| **GWERTH NET** | **1,227,106** | **131,548** | **1,107,962** |
| Cyfran o'r fferm a berchnogir (%) | 95 | 76 | 88 |

| DATA FFISEGOL | Pob fferm | Traean uchaf |
|---|---|---|
| **ARWYNEBEDD TIR** | **Hectarau** | **Hectarau** |
| Glaswelltir a chnydau phorthiant | 112.62 | 93.80 |
| Ydau a chnydau eraill | 0.61 | 0.49 |
| Tir pori garw, braenar, coetir a.y.b. | 73.22 | 111.32 |
| **CYF. ARWYNEBEDD (gwirioneddol)** | **186.45** | **205.61** |
| **CYF. ARWYNEBEDD (effeithiol)** | **134.78** | **126.20** |

| DA BYW | Pob fferm Nifer | Traean uchaf Nifer |
|---|---|---|
| Buchod sugno | 12 | 13 |
| Gwartheg eraill | 19 | 21 |
| Defaid magu | 918 | 857 |
| Defaid eraill | 552 | 504 |

| DANGOSYDDION PERFFORMIAD | Pob fferm | Traean uchaf |
|---|---|---|
| Ŵyn a fegir (nifer y ddafad ) | 1.09 | 1.13 |
| Gwerthiant ŵyn wedi'u pesgi (nifer y ddafad) | 0.69 | 0.71 |
| Gwerthiant ŵyn wedi'u pesgi (£ y oen) | 69.46 | 70.60 |
| Lloi a fegir (nifer y fuwch) | 0.84 | 0.85 |
| Gwerthiant gwartheg wedi'u pesgi ( £ y pen) | 1,209 | 1,136 |
| Gwerthiant gwartheg stôr (£ y pen) | 819 | 864 |
| Cyfradd stocio (glu/adj. forage ha.) | 0.70 | 0.71 |

## FFERMYDD UCHELDIR GWARTHEG A DEFAID 2018/19

**DATA FFERM GYFAN** Nifer o ffermydd: 91

| | Pob fferm | | Traean uchaf |
|---|---|---|---|
| **ALLBYNNAU** | **£/fferm** | **£/eff.ha.** | **£/eff.ha.** |
| Gwartheg cig eidion | 38,817 | 389 | 472 |
| Defaid | 34,441 | 345 | 546 |
| Cnydau a phorthiant | 7,447 | 75 | 98 |
| Taliad Sylfaenol | 18,159 | 182 | 190 |
| Cymorthdaliadau anuniongyrchol | 1,929 | 19 | 27 |
| Incwm o gynhyrchu egni | 1,293 | 13 | 19 |
| Incwm amrywiol | 8,081 | 81 | 138 |
| **CYFANSWM ALLBYNNAU** | **110,167** | **1,104** | **1,490** |
| | | | |
| **MEWNBYNNAU** | | | |
| Bwydydd | 14,921 | 149 | 170 |
| Costau tir pori tymhorol | 3,604 | 36 | 42 |
| Milfeddygol a meddyginiaethau | 4,135 | 41 | 46 |
| Costau da byw eraill | 7,367 | 74 | 86 |
| Gwrteithiau | 7,403 | 74 | 85 |
| Costau cnydau eraill | 2,175 | 22 | 26 |
| Contractio penodedig | 4,128 | 41 | 41 |
| **CYF. COSTAU NEWIDIOL** | **43,733** | **437** | **496** |
| | | | |
| Llafur y telir amdano | 3,541 | 35 | 40 |
| Contractio arall a llogi peiriannau | 978 | 10 | 8 |
| Tanwydd a thrwsio | 10,389 | 104 | 118 |
| Dibrisiant peiriannau | 10,899 | 109 | 134 |
| Costau ffermio cyffredinol | 9,174 | 92 | 89 |
| Costau tir | 3,820 | 38 | 37 |
| Dibrisiant adeiladau | 3,276 | 33 | 30 |
| **CYF. COSTAU SEFYDLOG** | **42,077** | **421** | **456** |
| | | | |
| **CYFANSWM MEWNBYNNAU** | **85,810** | **858** | **952** |
| | | | |
| **ELW CYN RHENT A CHYLLID** | **24,357** | **246** | **538** |
| Rhent | 3,588 | 36 | 34 |
| Cyllid | 3,011 | 30 | 33 |
| **ELW AR ÔL RHENT A CHYLLID** | **17,758** | **180** | **471** |
| Llafur di-dâl | 4,900 | 49 | 76 |

## FFERMYDD UCHELDIR GWARTHEG A DEFAID 2018/19

| MANTOLEN | Wedi'i pherchnogi £/fferm | Tenant £/fferm | Cymysg £/fferm |
|---|---|---|---|
| Nifer o ffermydd | 53 | 5 | 33 |
| CYFANSWM ASEDAU | 1,249,447 | - | 1,016,590 |
| CYFANSWM DYLEDION | 62,794 | - | 120,776 |
| | | | |
| **GWERTH NET** | **1,186,653** | **-** | **895,814** |
| Cyfran o'r fferm a berchnogir (%) | 95 | - | 88 |

| DATA FFISEGOL<br>ARWYNEBEDD TIR | Pob fferm<br>Hectarau | Traean uchaf<br>Hectarau |
|---|---|---|
| Glaswelltir a chnydau phorthiant | 91.91 | 100.72 |
| Ydau a chnydau eraill | 2.83 | 3.80 |
| Tir pori garw, braenar, coetir a.y.b. | 12.17 | 14.72 |
| **CYF. ARWYNEBEDD (gwirioneddol)** | **106.91** | **119.24** |
| **CYF. ARWYNEBEDD (effeithiol)** | **99.83** | **109.92** |

| DA BYW | Pob fferm<br>Nifer | Traean uchaf<br>Nifer |
|---|---|---|
| Buchod sugno | 29 | 31 |
| Gwartheg eraill | 82 | 106 |
| Defaid magu | 401 | 537 |
| Defaid eraill | 284 | 438 |

| DANGOSYDDION PERFFORMIAD | Pob fferm | Traean uchaf |
|---|---|---|
| Ŵyn a fegir (nifer y ddafad ) | 1.29 | 1.43 |
| Gwerthiant ŵyn wedi'u pesgi (nifer y ddafad) | 0.86 | 0.81 |
| Gwerthiant ŵyn wedi'u pesgi (£ y oen) | 81.90 | 89.18 |
| Lloi a fegir (nifer y fuwch) | 0.88 | 0.92 |
| Gwerthiant gwartheg wedi'u pesgi ( £ y pen) | 1,224 | 1,266 |
| Gwerthiant gwartheg stôr (£ y pen) | 819 | 886 |
| Cyfradd stocio (glu/adj. forage ha.) | 1.08 | 1.27 |

## FFERMYDD LLAWR GWLAD GWARTHEG A DEFAID 2018/19

### DATA FFERM GYFAN

Nifer o ffermydd: 63

| | Pob fferm | | Traean uchaf |
|---|---|---|---|
| **ALLBYNNAU** | **£/fferm** | **£/eff.ha.** | **£/eff.ha.** |
| Gwartheg cig eidion | 49,898 | 512 | 925 |
| Defaid | 27,918 | 286 | 399 |
| Cnydau a phorthiant | 18,902 | 194 | 252 |
| Taliad Sylfaenol | 18,061 | 185 | 202 |
| Cymorthdaliadau anuniongyrchol | 2,873 | 29 | 57 |
| Incwm o gynhyrchu egni | 3,763 | 39 | 95 |
| Incwm amrywiol | 5,419 | 56 | 65 |
| **CYFANSWM ALLBYNNAU** | **126,834** | **1,301** | **1,995** |
| | | | |
| **MEWNBYNNAU** | | | |
| Bwydydd | 12,543 | 129 | 143 |
| Costau tir pori tymhorol | 2,712 | 28 | 45 |
| Milfeddygol a meddyginiaethau | 3,129 | 32 | 31 |
| Costau da byw eraill | 7,085 | 73 | 89 |
| Gwrteithiau | 7,363 | 75 | 83 |
| Costau cnydau eraill | 4,244 | 44 | 52 |
| Contractio penodedig | 4,848 | 50 | 51 |
| **CYF. COSTAU NEWIDIOL** | **41,924** | **431** | **494** |
| | | | |
| Llafur y telir amdano | 3,701 | 38 | 69 |
| Contractio arall a llogi peiriannau | 1,523 | 16 | 23 |
| Tanwydd a thrwsio | 10,901 | 112 | 140 |
| Dibrisiant peiriannau | 12,645 | 130 | 163 |
| Costau ffermio cyffredinol | 10,790 | 111 | 124 |
| Costau tir | 4,147 | 43 | 40 |
| Dibrisiant adeiladau | 4,022 | 41 | 67 |
| **CYF. COSTAU SEFYDLOG** | **47,729** | **491** | **626** |
| | | | |
| **CYFANSWM MEWNBYNNAU** | **89,653** | **922** | **1,120** |
| | | | |
| **ELW CYN RHENT A CHYLLID** | **37,181** | **379** | **875** |
| Rhent | 5,501 | 56 | 51 |
| Cyllid | 3,502 | 36 | 48 |
| **ELW AR ÔL RHENT A CHYLLID** | **28,178** | **287** | **776** |
| Llafur di-dâl | 4,927 | 51 | 73 |

# FFERMYDD LLAWR GWLAD GWARTHEG A DEFAID 2018/19

| MANTOLEN | Wedi'i pherchnogi £/fferm | Tenant £/fferm | Cymysg £/fferm |
|---|---|---|---|
| Nifer o ffermydd | 27 | 9 | 27 |
| CYFANSWM ASEDAU | 1,403,621 | 205,182 | 1,320,493 |
| CYFANSWM DYLEDION | 72,175 | 28,603 | 124,384 |
| | | | |
| **GWERTH NET** | **1,331,446** | **176,579** | **1,196,109** |
| Cyfran o'r fferm a berchnogir (%) | 95 | 86 | 91 |

| DATA FFISEGOL<br>ARWYNEBEDD TIR | Pob fferm<br>Hectarau | Traean uchaf<br>Hectarau |
|---|---|---|
| Glaswelltir a chnydau phorthiant | 80.17 | 76.18 |
| Ydau a chnydau eraill | 6.42 | 3.36 |
| Tir pori garw, braenar, coetir a.y.b. | 16.57 | 23.02 |
| **CYF. ARWYNEBEDD (gwirioneddol)** | **103.16** | **102.56** |
| **CYF. ARWYNEBEDD (effeithiol)** | **97.53** | **95.43** |

| DA BYW | Pob fferm<br>Nifer | Traean uchaf<br>Nifer |
|---|---|---|
| Buchod sugno | 21 | 17 |
| Gwartheg eraill | 95 | 117 |
| Defaid magu | 303 | 326 |
| Defaid eraill | 232 | 279 |

| DANGOSYDDION PERFFORMIAD | Pob fferm | Traean uchaf |
|---|---|---|
| Ŵyn a fegir (nifer y ddafad ) | 1.35 | 1.46 |
| Gwerthiant ŵyn wedi'u pesgi (nifer y ddafad) | 1.21 | 1.40 |
| Gwerthiant ŵyn wedi'u pesgi (£ y oen) | 87.43 | 90.02 |
| Lloi a fegir (nifer y fuwch) | 0.85 | 0.98 |
| Gwerthiant gwartheg wedi'u pesgi ( £ y pen) | 1,248 | 1,275 |
| Gwerthiant gwartheg stôr (£ y pen) | 793 | 935 |
| Cyfradd stocio (glu/adj. forage ha.) | 1.23 | 1.49 |

## FFERMYDD GODRO ARDALOEDD LLAI FFAFRIOL 2018/19

**DATA FFERM GYFAN** Nifer o ffermydd: 59

| | Pob fferm | | Traean uchaf |
|---|---|---|---|
| **ALLBYNNAU** | **£/fferm** | **£/eff.ha.** | **£/eff.ha.** |
| Buchod godro - llaeth | 341,492 | 3,070 | 3,994 |
| - allbwn arall | 816 | 7 | 4 |
| Gwartheg eraill | 54,959 | 494 | 524 |
| Defaid | 14,158 | 127 | 92 |
| Cnydau a phorthiant | 1,206 | 11 | 12 |
| Taliad Sylfaenol | 19,625 | 176 | 183 |
| Cymorthdaliadau anuniongyrchol | 1,148 | 10 | 4 |
| Incwm o gynhyrchu egni | 3,319 | 30 | 43 |
| Incwm amrywiol | 3,937 | 35 | 38 |
| **CYFANSWM ALLBYNNAU** | **440,660** | **3,960** | **4,894** |
| | | | |
| **MEWNBYNNAU** | | | |
| Bwydydd | 120,456 | 1,083 | 1,161 |
| Costau tir pori tymhorol | 21,745 | 196 | 230 |
| Milfeddygol a meddyginiaethau | 13,105 | 118 | 119 |
| Costau da byw eraill | 35,336 | 318 | 293 |
| Gwrteithiau | 18,679 | 168 | 204 |
| Costau cnydau eraill | 5,741 | 52 | 63 |
| Contractio penodedig | 24,211 | 218 | 209 |
| **CYF. COSTAU NEWIDIOL** | **239,273** | **2,153** | **2,279** |
| | | | |
| Llafur y telir amdano | 22,747 | 205 | 335 |
| Contractio arall a llogi peiriannau | 3,277 | 29 | 34 |
| Tanwydd a thrwsio | 26,937 | 242 | 276 |
| Dibrisiant peiriannau | 22,721 | 204 | 215 |
| Costau ffermio cyffredinol | 24,468 | 220 | 232 |
| Costau tir | 12,394 | 111 | 127 |
| Dibrisiant adeiladau | 15,523 | 140 | 161 |
| **CYF. COSTAU SEFYDLOG** | **128,067** | **1,151** | **1,380** |
| | | | |
| **CYFANSWM MEWNBYNNAU** | **367,340** | **3,304** | **3,659** |
| | | | |
| **ELW CYN RHENT A CHYLLID** | **73,320** | **656** | **1,235** |
| Rhent | 7,271 | 65 | 81 |
| Cyllid | 15,117 | 136 | 107 |
| **ELW AR ÔL RHENT A CHYLLID** | **50,932** | **455** | **1,047** |
| Llafur di-dâl | 13,352 | 120 | 102 |

# FFERMYDD GODRO ARDALOEDD LLAI FFAFRIOL 2018/19

| MANTOLEN | Wedi'i pherchnogi £/fferm | Tenant £/fferm | Cymysg £/fferm |
|---|---|---|---|
| Nifer o ffermydd | 27 | 0 | 32 |
| CYFANSWM ASEDAU | 1,825,197 | - | 1,821,787 |
| CYFANSWM DYLEDION | 416,210 | - | 556,271 |
| **GWERTH NET** | **1,408,987** | **-** | **1,265,516** |
| Cyfran o'r fferm a berchnogir (%) | 77 | - | 69 |

| DATA FFISEGOL<br>ARWYNEBEDD TIR | Pob fferm<br>Hectarau | Traean uchaf<br>Hectarau |
|---|---|---|
| Glaswelltir a chnydau phorthiant | 107.53 | 109.95 |
| Ydau a chnydau eraill | 0.28 | 0.43 |
| Tir pori garw, braenar, coetir a.y.b. | 11.00 | 10.22 |
| **CYF. ARWYNEBEDD (gwirioneddol)** | **118.81** | **120.60** |
| **CYF. ARWYNEBEDD (effeithiol)** | **111.22** | **112.73** |

| DA BYW | Pob fferm<br>Nifer | Traean uchaf<br>Nifer |
|---|---|---|
| Buchod godro | 167 | 224 |
| Buchod sugno | 1 | 1 |
| Gwartheg eraill | 141 | 145 |
| Defaid magu | 183 | 112 |
| Defaid eraill | 107 | 70 |

| DANGOSYDDION PERFFORMIAD | Pob fferm | Traean uchaf |
|---|---|---|
| Llaeth a gynhyrchir (litrau y fuwch) | 7,096 | 6,931 |
| Mantais dros ddwysfwyd (£ y fuwch) | 1,457 | 1,508 |
| Gwerthiant llaeth (£ y fuwch) | 2,040 | 2,018 |
| Pris llaeth (ceiniogau y litr) | 29.15 | 29.42 |
| Cyfradd stocio (glu/adj. forage ha.) | 2.11 | 2.41 |

## FFERMYDD GODRO LLAWR GWLAD 2018/19

## DATA FFERM GYFAN

Nifer o ffermydd: 51

| | Pob fferm | | Traean uchaf |
|---|---|---|---|
| **ALLBYNNAU** | **£/fferm** | **£/eff.ha.** | **£/eff.ha.** |
| Buchod godro - llaeth | 418,008 | 3,534 | 4,268 |
| - allbwn arall | -5,946 | -50 | -17 |
| Gwartheg eraill | 66,191 | 560 | 644 |
| Defaid | 3,745 | 32 | 47 |
| Cnydau a phorthiant | 4,254 | 36 | 28 |
| Taliad Sylfaenol | 20,375 | 172 | 187 |
| Cymorthdaliadau anuniongyrchol | 1,653 | 14 | 8 |
| Incwm o gynhyrchu egni | 2,493 | 21 | 16 |
| Incwm amrywiol | 5,041 | 43 | 39 |
| **CYFANSWM ALLBYNNAU** | **515,814** | **4,362** | **5,220** |
| | | | |
| **MEWNBYNNAU** | | | |
| Bwydydd | 142,454 | 1,205 | 1,361 |
| Costau tir pori tymhorol | 25,754 | 218 | 255 |
| Milfeddygol a meddyginiaethau | 15,721 | 133 | 131 |
| Costau da byw eraill | 40,887 | 346 | 371 |
| Gwrteithiau | 18,700 | 158 | 173 |
| Costau cnydau eraill | 9,587 | 81 | 74 |
| Contractio penodedig | 28,559 | 241 | 223 |
| **CYF. COSTAU NEWIDIOL** | **281,662** | **2,382** | **2,588** |
| | | | |
| Llafur y telir amdano | 31,784 | 269 | 229 |
| Contractio arall a llogi peiriannau | 6,511 | 55 | 12 |
| Tanwydd a thrwsio | 29,855 | 252 | 257 |
| Dibrisiant peiriannau | 28,434 | 240 | 280 |
| Costau ffermio cyffredinol | 30,154 | 255 | 251 |
| Costau tir | 14,114 | 119 | 110 |
| Dibrisiant adeiladau | 17,497 | 148 | 177 |
| **CYF. COSTAU SEFYDLOG** | **158,349** | **1,338** | **1,316** |
| | | | |
| **CYFANSWM MEWNBYNNAU** | **440,011** | **3,720** | **3,904** |
| | | | |
| **ELW CYN RHENT A CHYLLID** | **75,803** | **642** | **1,316** |
| Rhent | 9,358 | 79 | 38 |
| Cyllid | 12,879 | 109 | 56 |
| **ELW AR ÔL RHENT A CHYLLID** | **53,566** | **454** | **1,222** |
| Llafur di-dâl | 13,133 | 111 | 131 |

## FFERMYDD GODRO LLAWR GWLAD 2018/19

| MANTOLEN | Wedi'i pherchnogi £/fferm | Tenant £/fferm | Cymysg £/fferm |
|---|---|---|---|
| Nifer o ffermydd | 25 | 3 | 23 |
| CYFANSWM ASEDAU | 2,458,174 | - | 1,680,164 |
| CYFANSWM DYLEDION | 355,666 | - | 383,913 |
| | | | |
| **GWERTH NET** | **2,102,508** | **-** | **1,296,251** |
| Cyfran o'r fferm a berchnogir (%) | 86 | - | 77 |

| DATA FFISEGOL<br>ARWYNEBEDD TIR | Pob fferm<br>Hectarau | Traean uchaf<br>Hectarau |
|---|---|---|
| Glaswelltir a chnydau phorthiant | 113.97 | 106.04 |
| Ydau a chnydau eraill | 3.38 | 2.81 |
| Tir pori garw, braenar, coetir a.y.b. | 7.62 | 8.19 |
| **CYF. ARWYNEBEDD (gwirioneddol)** | **124.97** | **117.04** |
| **CYF. ARWYNEBEDD (effeithiol)** | **118.27** | **109.73** |

| DA BYW | Pob fferm<br>Nifer | Traean uchaf<br>Nifer |
|---|---|---|
| Buchod godro | 195 | 203 |
| Buchod sugno | 0 | 0 |
| Gwartheg eraill | 177 | 188 |
| Defaid magu | 55 | 54 |
| Defaid eraill | 26 | 25 |

| DANGOSYDDION PERFFORMIAD | Pob fferm | Traean uchaf |
|---|---|---|
| Llaeth a gynhyrchir (litrau y fuwch) | 7,416 | 7,969 |
| Mantais dros ddwysfwyd (£ y fuwch) | 1,525 | 1,683 |
| Gwerthiant llaeth (£ y fuwch) | 2,138 | 2,304 |
| Pris llaeth (ceiniogau y litr) | 29.15 | 29.12 |
| Cyfradd stocio (glu/adj. forage ha.) | 2.37 | 2.54 |

## ELW BRAS: DEFAID MYNYDD

| | Pob diadell | Traean uchaf |
|---|---|---|
| | | **2018/19** |
| Nifer o ddiadelloedd yn y sampl | 201 | 67 |
| Maint y ddiadell (i'r hwrdd) | 678 | 559 |
| Ŵyn a fegir (nifer y ddafad) | 1.12 | 1.36 |
| | | |
| **ALLBWN Y FENTER** | **£ y ddafad** | **£ y ddafad** |
| Gwerthiant ŵyn - stôr | 4.90 | 2.99 |
| - wedi'u pesgi | 53.13 | 79.94 |
| Gwerthiant defaid eraill | 12.79 | 17.47 |
| Gwerthiant gwlân | 1.25 | 1.64 |
| Amrywiol | 0.02 | 0.00 |
| Newid mewn gwerth | -0.62 | -0.46 |
| Pryniant defaid | -5.32 | -6.94 |
| **CYFANSWM ALLBWN Y FENTER** | **66.15** | **94.64** |
| | | |
| **COSTAU NEWIDIOL** | | |
| Porthiant a bwyd wedi'i brynu | 16.61 | 18.89 |
| Costau tir pori tymhorol | 3.47 | 2.09 |
| Milfeddygol a meddyginiaethau | 5.31 | 6.02 |
| Costau da byw eraill | 6.25 | 7.26 |
| Contractio penodedig | 1.36 | 1.52 |
| Costau newidiol cynhyrchu porthiant | 11.39 | 10.75 |
| **CYFANSWM COSTAU NEWIDIOL** | **44.39** | **46.53** |
| | | |
| **ELW BRAS** | **21.76** | **48.11** |

## ELW BRAS: DEFAID UCHELDIR

| | Pob diadell | Traean uchaf |
|---|---|---|
| Nifer o ddiadelloedd yn y sampl | 56 | 19 |
| Maint y ddiadell (i'r hwrdd) | 530 | 574 |
| Ŵyn a fegir (nifer y ddafad) | 1.30 | 1.45 |
| | | |
| **ALLBWN Y FENTER** | **£ y ddafad** | **£ y ddafad** |
| Gwerthiant ŵyn - stôr | 3.07 | 1.05 |
| - wedi'u pesgi | 90.88 | 113.24 |
| Gwerthiant defaid eraill | 15.77 | 18.15 |
| Gwerthiant gwlân | 1.49 | 1.40 |
| Amrywiol | 0.00 | 0.00 |
| Newid mewn gwerth | -4.76 | -4.60 |
| Pryniant defaid | -11.21 | -14.35 |
| **CYFANSWM ALLBWN Y FENTER** | **95.24** | **114.89** |
| | | |
| **COSTAU NEWIDIOL** | | |
| Porthiant a bwyd wedi'i brynu | 20.06 | 18.29 |
| Costau tir pori tymhorol | 1.77 | 1.37 |
| Milfeddygol a meddyginiaethau | 7.07 | 7.21 |
| Costau da byw eraill | 9.24 | 10.13 |
| Contractio penodedig | 1.19 | 1.18 |
| Costau newidiol cynhyrchu porthiant | 17.21 | 15.57 |
| **CYFANSWM COSTAU NEWIDIOL** | **56.54** | **53.75** |
| | | |
| **ELW BRAS** | **38.70** | **61.14** |

## ELW BRAS: DEFAID LLAWR GWLAD — 2018/19

| | Pob diadell | Traean uchaf |
|---|---|---|
| Nifer o ddiadelloedd yn y sampl | 37 | 12 |
| Maint y ddiadell (i'r hwrdd) | 404 | 459 |
| Ŵyn a fegir (nifer y ddafad) | 1.39 | 1.60 |
| **ALLBWN Y FENTER** | **£ y ddafad** | **£ y ddafad** |
| Gwerthiant ŵyn - stôr | 0.47 | 0.51 |
| - wedi'u pesgi | 110.54 | 146.09 |
| Gwerthiant defaid eraill | 15.63 | 19.02 |
| Gwerthiant gwlân | 1.38 | 1.54 |
| Amrywiol | 0.00 | 0.00 |
| Newid mewn gwerth | -1.54 | -3.15 |
| Pryniant defaid | -14.72 | -17.70 |
| **CYFANSWM ALLBWN Y FENTER** | **111.76** | **146.31** |
| **COSTAU NEWIDIOL** | | |
| Porthiant a bwyd wedi'i brynu | 20.48 | 24.07 |
| Costau tir pori tymhorol | 2.48 | 4.49 |
| Milfeddygol a meddyginiaethau | 6.83 | 6.29 |
| Costau da byw eraill | 10.96 | 12.83 |
| Contractio penodedig | 1.96 | 1.47 |
| Costau newidiol cynhyrchu porthiant | 14.76 | 11.69 |
| **CYFANSWM COSTAU NEWIDIOL** | **57.47** | **60.84** |
| **ELW BRAS** | **54.29** | **85.47** |

## ELW BRAS: BUCHOD SUGNO LLAWR GWLAD

| | Pob buches | Traean uchaf |
|---|---|---|
| Nifer o fuchesi yn y sampl | 15 | 5 |
| Maint y fuches (buchod magu) | 39 | - |
| Lloi a fegir (nifer y fuwch) | 0.86 | - |
| Gwerthiant gwartheg wedi'u pesgi (£ y pen) | 1,199 | - |
| Gwerthiant gwartheg stôr (£ y pen) | 843 | - |
| **ALLBWN Y FENTER** | **£ y fuwch** | **£ y fuwch** |
| Gwerthiant lloi a gwartheg stôr | 422.90 | - |
| Gwerthiant teirw a buchod | 109.49 | - |
| Gwerthiant gwartheg wedi'u pesgi | 469.13 | - |
| Newid mewn gwerth | 65.59 | - |
| Pryniant gwartheg | -216.84 | - |
| **CYFANSWM ALLBWN Y FENTER** | **850.27** | **-** |
| **COSTAU NEWIDIOL** | | |
| Porthiant a bwyd wedi'i brynu | 219.36 | - |
| Milfeddygol a meddyginiaethau | 31.14 | - |
| Costau da byw eraill | 93.30 | - |
| Contractio penodedig | 4.31 | - |
| Costau newidiol cynhyrchu porthiant | 171.04 | - |
| **CYFANSWM COSTAU NEWIDIOL** | **519.15** | **-** |
| **ELW BRAS** | **331.12** | **-** |

## ELW BRAS: BUCHOD SUGNO UCHELDIR 2018/19

| | Pob buches | Traean uchaf |
|---|---|---|
| Nifer o fuchesi yn y sampl | 21 | 7 |
| Maint y fuches (buchod magu) | 43 | 58 |
| Lloi a fegir (nifer y fuwch) | 0.90 | 0.93 |
| Gwerthiant gwartheg wedi'u pesgi (£ y pen) | 1,216 | 1,236 |
| Gwerthiant gwartheg stôr (£ y pen) | 850 | 1,005 |
| | | |
| **ALLBWN Y FENTER** | **£ y fuwch** | **£ y fuwch** |
| Gwerthiant lloi a gwartheg stôr | 564.30 | 509.76 |
| Gwerthiant teirw a buchod | 118.54 | 91.29 |
| Gwerthiant gwartheg wedi'u pesgi | 442.86 | 658.75 |
| Newid mewn gwerth | -62.73 | -5.38 |
| Pryniant gwartheg | -173.58 | -194.69 |
| **CYFANSWM ALLBWN Y FENTER** | **889.39** | **1,059.73** |
| | | |
| **COSTAU NEWIDIOL** | | |
| Porthiant a bwyd wedi'i brynu | 190.31 | 213.70 |
| Milfeddygol a meddyginiaethau | 42.81 | 34.06 |
| Costau da byw eraill | 89.83 | 83.94 |
| Contractio penodedig | 6.79 | 9.04 |
| Costau newidiol cynhyrchu porthiant | 208.88 | 162.63 |
| **CYFANSWM COSTAU NEWIDIOL** | **538.62** | **503.37** |
| | | |
| **ELW BRAS** | **350.77** | **556.36** |

## ELW BRAS: BUCHOD SUGNO MYNYDD

| | Pob buches | Traean uchaf |
|---|---|---|
| Nifer o fuchesi yn y sampl | 108 | 36 |
| Maint y fuches (buchod magu) | 44 | 42 |
| Lloi a fegir (nifer y fuwch) | 0.85 | 0.88 |
| Gwerthiant gwartheg wedi'u pesgi (£ y pen) | 1,223 | 1,237 |
| Gwerthiant gwartheg stôr (£ y pen) | 895 | 988 |
| | | |
| **ALLBWN Y FENTER** | **£ y fuwch** | **£ y fuwch** |
| Gwerthiant lloi a gwartheg stôr | 704.41 | 773.73 |
| Gwerthiant teirw a buchod | 118.97 | 104.11 |
| Gwerthiant gwartheg wedi'u pesgi | 162.62 | 214.32 |
| Newid mewn gwerth | -17.08 | -19.10 |
| Pryniant gwartheg | -191.59 | -152.63 |
| **CYFANSWM ALLBWN Y FENTER** | **777.33** | **920.43** |
| | | |
| **COSTAU NEWIDIOL** | | |
| Porthiant a bwyd wedi'i brynu | 220.66 | 174.51 |
| Milfeddygol a meddyginiaethau | 44.68 | 37.14 |
| Costau da byw eraill | 105.08 | 109.03 |
| Contractio penodedig | 6.23 | 9.21 |
| Costau newidiol cynhyrchu porthiant | 159.65 | 119.53 |
| **CYFANSWM COSTAU NEWIDIOL** | **536.30** | **449.42** |
| | | |
| **ELW BRAS** | **241.03** | **471.01** |

## ELW BRAS: BUCHOD GODRO ARDALOEDD LLAI FFAFRIOL 2018/19

| | Pob buches | Traean uchaf |
|---|---|---|
| Nifer o fuchesi yn y sampl | 59 | 20 |
| Maint y fuches (buchod godro) | 155 | 164 |
| Llaeth a gynhyrchir (litrau y fuwch) | 6,915 | 7,409 |
| Pris llaeth (ceiniogau y litr) | 29.01 | 29.92 |
| | | |
| **ALLBWN Y FENTER** | **£ y fuwch** | **£ y fuwch** |
| Llaeth | 2,006.41 | 2,216.72 |
| Lloi | 124.84 | 139.10 |
| Gwerthiant teirw a buchod | 179.28 | 285.37 |
| Newid mewn gwerth | 20.14 | -24.54 |
| Pryniant gwartheg | -308.85 | -311.03 |
| **CYFANSWM ALLBWN Y FENTER** | **2,021.82** | **2,305.62** |
| | | |
| **COSTAU NEWIDIOL** | | |
| Porthiant a bwyd wedi'i brynu | 625.09 | 584.34 |
| Milfeddygol a meddyginiaethau | 58.35 | 67.65 |
| Costau da byw eraill | 169.85 | 174.68 |
| Contractio penodedig | 40.43 | 17.75 |
| Costau newidiol cynhyrchu porthiant | 183.09 | 180.51 |
| **CYFANSWM COSTAU NEWIDIOL** | **1,076.81** | **1,024.93** |
| | | |
| **ELW BRAS** | **945.01** | **1,280.69** |

## ELW BRAS: BUCHOD GODRO LLAWR GWLAD

| | Pob buches | Traean uchaf |
|---|---|---|
| Nifer o fuchesi yn y sampl | 51 | 17 |
| Maint y fuches (buchod godro) | 193 | 164 |
| Llaeth a gynhyrchir (litrau y fuwch) | 7,416 | 8,009 |
| Pris llaeth (ceiniogau y litr) | 29.15 | 29.92 |
| | | |
| **ALLBWN Y FENTER** | **£ y fuwch** | **£ y fuwch** |
| Llaeth | 2,161.37 | 2,396.09 |
| Lloi | 106.97 | 123.64 |
| Gwerthiant teirw a buchod | 187.61 | 305.82 |
| Newid mewn gwerth | 7.36 | -19.48 |
| Pryniant gwartheg | -332.69 | -357.21 |
| **CYFANSWM ALLBWN Y FENTER** | **2,130.62** | **2,448.86** |
| | | |
| **COSTAU NEWIDIOL** | | |
| Porthiant a bwyd wedi'i brynu | 675.69 | 655.44 |
| Milfeddygol a meddyginiaethau | 71.79 | 72.63 |
| Costau da byw eraill | 174.60 | 170.06 |
| Contractio penodedig | 32.95 | 25.39 |
| Costau newidiol cynhyrchu porthiant | 187.26 | 157.87 |
| **CYFANSWM COSTAU NEWIDIOL** | **1,142.29** | **1,081.39** |
| | | |
| **ELW BRAS** | **988.33** | **1,367.47** |

## COSTAU CYNHYRCHU CIG OEN 2018/19

| Ceiniogau y kg pwysau byw | Pob fferm | Traean uchaf | Traean isaf |
|---|---|---|---|
| Nifer o ffermydd | 122 | 41 | 41 |
| Bwyd | 47.80 | 37.45 | 59.44 |
| Milfeddygol a meddyginiaethau | 13.00 | 10.55 | 14.13 |
| Costau da byw eraill | 20.79 | 18.48 | 23.74 |
| Porthiant | 25.44 | 21.74 | 30.12 |
| **CYFANSWM COSTAU NEWIDIOL** | **107.03** | **88.22** | **127.43** |
| **ADNEWYDDU DIADELL** | **23.10** | **18.29** | **26.06** |
| Llafur y telir amdano | 5.65 | 2.89 | 8.45 |
| Pŵer a pheiriannau | 45.83 | 34.30 | 54.22 |
| Adeiladau | 12.60 | 9.05 | 16.12 |
| Costau fferm cyffredinol | 21.67 | 16.32 | 26.73 |
| Rhent | 7.91 | 6.75 | 11.13 |
| Cyllid | 6.43 | 2.74 | 10.15 |
| **CYFANSWM COSTAU SEFYDLOG** | **100.09** | **72.05** | **126.80** |
| **CYFANSWM COSTAU** | **230.22** | **178.56** | **280.29** |
| **ELW NET** | **-32.97** | **26.76** | **-91.37** |
| Ŵyn a fegir (nifer y ddafad) | 1.28 | 1.41 | 1.13 |
| Maint y ddiadell | 634 | 645 | 607 |
| Cyfartaledd oen pwysau byw (kg) | 39.17 | 40.59 | 36.96 |

## COSTAU CYNHYRCHU LLAETH

| Ceiniogau y litr | Pob fferm | Traean uchaf | Traean isaf |
|---|---|---|---|
| Nifer o ffermydd | 110 | 37 | 37 |
| Bwyd | 8.50 | 7.18 | 9.38 |
| Milfeddygol a meddyginiaethau | 0.88 | 0.77 | 0.92 |
| Costau da byw eraill | 2.99 | 2.47 | 3.40 |
| Porthiant | 2.59 | 2.14 | 2.78 |
| **CYFANSWM COSTAU NEWIDIOL** | **14.96** | **12.56** | **16.48** |
| **ADNEWYDDU BUCHES** | **1.71** | **0.75** | **2.61** |
| Llafur y telir amdano | 1.01 | 0.85 | 1.31 |
| Pŵer a pheiriannau | 3.03 | 2.76 | 2.98 |
| Adeiladau | 1.37 | 1.20 | 1.62 |
| Costau fferm cyffredinol | 1.54 | 1.45 | 1.68 |
| Rhent | 0.41 | 0.43 | 0.27 |
| Cyllid | 0.62 | 0.34 | 0.90 |
| **CYFANSWM COSTAU SEFYDLOG** | **7.98** | **7.03** | **8.76** |
| **CYFANSWM COSTAU** | **24.65** | **20.34** | **27.85** |
| **ELW NET** | **5.81** | **10.57** | **0.62** |
| Mantais dros ddwysfwyd | 20.65 | 21.91 | 18.08 |
| Pris llaeth | 28.58 | 28.66 | 26.74 |

## COSTAU CYNHYRCHU CIG EIDION: LLOI SUGNO 2018/19

| Ceiniogau y kg pwysau byw | Pob fferm | Traean uchaf | Traean isaf |
|---|---|---|---|
| Nifer o ffermydd | 39 | 13 | 13 |
| Bwyd | 21.66 | 10.44 | 32.53 |
| Milfeddygol a meddyginiaethau | 12.03 | 10.91 | 11.55 |
| Costau da byw eraill | 18.36 | 17.86 | 20.78 |
| Porthiant | 40.65 | 32.63 | 42.17 |
| **CYFANSWM COSTAU NEWIDIOL** | **92.70** | **71.84** | **107.03** |
| **ADNEWYDDU BUCHES** | **15.76** | **16.89** | **20.06** |
| Llafur y telir amdano | 10.04 | 1.24 | 16.46 |
| Pŵer a pheiriannau | 74.30 | 51.41 | 92.84 |
| Adeiladau | 23.61 | 17.35 | 30.68 |
| Costau fferm cyffredinol | 32.94 | 30.83 | 36.66 |
| Rhent | 7.83 | 5.45 | 9.40 |
| Cyllid | 7.77 | 3.70 | 7.07 |
| **CYFANSWM COSTAU SEFYDLOG** | **156.49** | **109.98** | **193.11** |
| **CYFANSWM COSTAU** | **264.95** | **198.71** | **320.20** |
| **ELW NET** | **-92.88** | **-14.27** | **-166.00** |

Mae cynhyrchu lloi sugno yn cyfeirio at gostau buchod sugno a'u lloi hyd at adeg diddyfnu.

## COSTAU CYNHYRCHU CIG EIDION: PESGI

| Ceiniogau y kg pwysau byw | Pob fferm | Traean uchaf | Traean isaf |
|---|---|---|---|
| Nifer o ffermydd | 9 | 3 | 3 |
| Bwyd | 95 | - | - |
| Milfeddygol a meddyginiaethau | 5 | - | - |
| Costau da byw eraill | 34 | - | - |
| Porthiant | 28 | - | - |
| **CYFANSWM COSTAU NEWIDIOL** | **162.73** | **-** | **-** |
| Llafur y telir amdano | 3.77 | - | - |
| Pŵer a pheiriannau | 60.06 | - | - |
| Adeiladau | 12.15 | - | - |
| Costau fferm cyffredinol | 27.55 | - | - |
| Rhent | 19.57 | - | - |
| Cyllid | 3.73 | - | - |
| **CYFANSWM COSTAU SEFYDLOG** | **126.83** | **-** | **-** |
| **CYFANSWM COSTAU** | **289.56** | **-** | **-** |
| **ELW NET** | **-25.54** | **-** | **-** |

Mentrau pesgi yw'r rai hynny sy'n prynu gwartheg cryfion ag ifanc, a'r rhai sy'n pesgi lloi fagwyd ar y fferm ar ôl diddyfnu.

## Anghenion Elw Fferm

Mae'n rhaid cael elw er mwyn ariannu:

Codi arian personol o'r busnes,
Ad-dalu benthyciadau (cyfalaf),
Gwariant / buddsoddiad cyfalaf,
Treth bersonol, a
Risg a gwobrwyo ymdrech entrepreneuraidd

Mae'r cyfrifiad canlynol yn helpu i benderfynu a oes elw digonol i sicrhau digon o adnoddau ariannol:

**Elw fel y dangosir yn y cyfrifon**

**Plws:** Costau dibrisiant am y flwyddyn
Stoc gychwynnol (da byw a storfeydd eraill)
Dyledwyr cychwynnol a chredydwyr terfynol
Benthyciadau / HP wedi'u codi a chyfalaf a gyflwynwyd
Gwerthu tir a pheiriannau

**Tynnu:** Stoc derfynol (da byw a storfeydd eraill)
Dyledwyr terfynol a chredydwyr cychwynnol
Cynnyrch wedi'i ddefnyddio/bwyta ar y fferm

**Hafal i:** Arian i dalu am ymrwymiadau

**Tynnu:** Codi arian personol o'r busnes
Ad-daliadau benthyciadau / HP (cyfalaf)
Gwariant / buddsoddiad cyfalaf
Treth bersonol

**Hafal i:** Llif Arian Net Blynyddol (LlANB)

Yn ddelfrydol dylai'r LlANB fod yn bositif gan amlaf (i'w weld fel gwelliant ym malans banc / dyledion y fferm). Yr eitemau sydd yn dylanwadu fwyaf ar y tebygolrwydd y bydd y LlANB yn bositif yw:

Maint yr elw
Lefel y codi arian personol
Gwariant cyfalaf
Ad-dalu benthyciadau / HP

Gall LlANB negyddol (h.y. proffidioldeb fferm annigonol ac/neu alw mawr ar arian parod) effeithio'n sylweddol ar hyfywdra y busnes yn y tymor hir.